Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Gwynedd

## Crynodeb archwiliad blynyddol 2020



Dyma grynodeb o’n harchwiliad ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae’n dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019. Mae’r crynodeb o’n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â’r Cyngor

### Rhai o’r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| Mae’r Cyngor yn cynnwys 75 cynghorydd sy’n cynrychioli’r pleidiau gwleidyddol canlynol:<br>• Plaid Cymru 39<br>• Annibynnol 21<br>• Llais Gwynedd 6<br>• Annibynnol Unedig Gwynedd 3<br>• Plaid Genedlaethol Cymru 2<br>• Aelod Unigol 1<br>• Llafur 1<br>• Democratiaid Rhyddfrydol 1<br>• Sedd wag 1 |
| Gwariodd y Cyngor £250.1 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2019-20, yr 11eg gwariant isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru. |
| Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Cyngor £71.1 miliwn yn ei gronfeydd ariannol wrth gefn y gellid eu defnyddio. Mae hyn yn cyfateb i 28% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, yr ail ganran uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru. |

Bernir bod dwy (3%) o'r 73 ardal yng Ngwynedd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef y 6ed isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[1].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 5.3% rhwng 2020 a 2040 o 124,670 i 131,314, gan gynnwys gostyngiad o 0.4% yn nifer y plant, cynnydd o 0.9% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 20.8% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd[2].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau y cedwir cofnod priodol o wariant arian cyhoeddus.
- **Gwerth am arian**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.
- **Gwelliant parhaus**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith hefyd i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny).
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[1] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[2] Ffynhonnell: Stats Cymru

Ers Gwanwyn 2020, mae'r pandemig parhaus wedi effeithio ar ein gwaith archwilio. Rydym yn cydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac wedi ail-lunio ein rhaglen waith, ac wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i leihau ei effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, tra'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2019-20 Cyngor Gwynedd

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2019-20:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020, 25 diwrnod cyn y dyddiad cau statudol.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 3 Mehefin 2020 yn dda ar y cyfan.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2020.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'n gyfrifol hefyd am ardystio nifer o ffurflenni a hawliadau grant. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau.
- Gellir cael gafael ar ffeithiau a ffigurau allweddol o ddatganiadau ariannol 2019-20 yma.

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Darparu Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal (Ionawr 2020)

Roedd yr archwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2019-20 yn ystyried i ba raddau y mae’r Cyngor wedi gweithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i Ddarparu Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal. Daethom i'r casgliad bod nod y Pum Tîm Ardal yn cyd-fynd yn naturiol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond drwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio o fewn dull Ffordd Gwynedd y Cyngor, gallai fanteisio'n llawnach ar y cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gellir gweld yr adroddiad yma.

## Gwelliant Parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliannau, ac mae’n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21.

## Cynaliadwyedd Ariannol (Mawrth 2020)

Yn ystod 2019-20, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob Cyngor yng Nghymru. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ar hyn o bryd a bod ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae gan rai gwasanaethau orwariant blynyddol sylweddol ac ni wireddir yr holl arbedion, sy'n achosi risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Gellir gweld yr adroddiad yma.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ganfyddiadau ymarfer paru data diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru. Roedd yr ymarfer yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y 22 awdurdod unedol, i nodi twyll a gordaliadau gwerth cyfanswm o £8 miliwn. Mae’r adroddiad ar gael ar ein gwefan yma. Mae’r Fenter yn parhau i gael ei datblygu, ac yn yr ymarfer NFI arfaethedig (NFI 2020-2022), bydd gan awdurdodau lleol fynediad at ddata sydd wedi’i baru er mwyn helpu i nodi ceisiadau twyllodrus posibl ar gyfer grantiau cymorth busnes COVID-19.

## Arolygiaethau Eraill

Ystyriwyd adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn hefyd, ynghyd ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

Cyhoeddodd AGC eu llythyr adolygu perfformiad i awdurdodau lleol 2019/20 ym mis Awst 2020. Mae'r adroddiad yma.

Mae Estyn wedi cynnal nifer o arolygiadau yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau thematig. Ni chafwyd unrhyw arolygiadau eraill o Gyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod hwn, ond fel arfer arolygodd Estyn ysgolion lleol, ac roedd gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yng Ngwynedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol (Mehefin 2019)

Adolygwyd cynnydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Daethom i'r casgliad nad yw awdurdodau cynllunio yn ddigon gwydn i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a'r her o reoli system gymhleth. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol (Medi 2019)

Ystyriwyd effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Er bod cynghorau'n atal y galw am ofal cymdeithasol, canfuwyd nad yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Hydref 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu cylch gorchwyl, amlder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent yn cyd-fynd â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Daethom i'r casgliad nad yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn debygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Cynnydd o ran gweithredu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Tachwedd 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael eu cyflwyno a'u cyflawni. Gwelwyd fod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu methu yn aml gan system anghyson, gymhleth a thameidiog. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (Gorffennaf 2020)

Edrychwyd ar ba mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i fater cysgu allan. Yn gyffredinol, gwelwyd fod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â chysgu allan yn y gorffennol. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Deddfu Gwell (Medi 2020)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio pum adroddiad a gyhoeddwyd rhwng 2019 a heddiw yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o weithredu deddfwriaeth newydd. Mae rhoi deddfwriaeth ar waith yn dasg gymhleth, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd roi ystyriaeth fanwl i'r dasg hon pan fyddant yn cynnig ac yn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'r papur yn tynnu sylw at yr anawsterau a wynebir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus wrth weithredu eu cyfrifoldebau newydd. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (Hydref 2020)

Mae cynghorau wedi ymgymryd â gweithgarwch masnachol ar ryw ffurf ers amser maith, ac mae llawer o gynghorau'n archwilio cyfleoedd masnachol ychwanegol i liniaru yn erbyn y pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu. Mae'n hadroddiad wedi'i anelu'n benodol at helpu aelodau etholedig ac uwch-swyddogion i archwilio a dyfarnu ar yr effaith bosibl ar eu sefydliadau wrth ystyried a ddylid ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio. Bydd hefyd yn helpu cynghorau i ddangos pa mor dda y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau o safbwynt sicrhau gwerth am arian. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2020-21

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r cyngor. Gallai'r risgiau hyn effeithio ar allu'r cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y defnydd o'i adnoddau a gwelliant parhaus.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2020-21 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae'r gwaith a wnaethom yn 2020-21 yn cynnwys:

- Cynllunio adferiad mewn ymateb i bandemig COVID-19
- Prosiect dysgu COVID – helpu i nodi a rhannu dysgu o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r pandemig
- Sicrwydd ac asesu risg
- Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor
- Adolygiad o Ffordd Gwynedd
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau’r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.